Prifysgol Bangor

# COFNODION Y CYNGOR

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol ddydd Gwener, 30 Hydref 2020.

Presennol:
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Yr Athro Nicky Callow, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Andrew Edwards, Mr Iwan Evans, Dr Griff Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Ms Ellen Parry Williams, Miss Julie Perkins, Dr Ian Rees, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro Paul Spencer, Yr Athro Oliver Turnbull, Mr Henry Williams, Mr Tudur Williams, Prif Swyddog Gweithredu/Ysgrifennydd y Brifysgol, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

Ymddheuriadau:
Dr Tomos Dafydd, Dr Karen Jones a Mrs Alison Lea-Wilson.

Darparwyd sylwadau i'r Ysgrifennydd gan Mrs Lea-Wilson cyn y cyfarfod.

## 20.22 AELODAETH Y CYNGOR

A. Hysbyswyd y Cyngor fod tair swydd wag ar hyn o bryd i aelodau annibynnol ar y Cyngor yn dilyn ymddiswyddiad Dr Peter Higson, a daeth cyfnod swydd i Ms Ellen Parry Williams a Mr Tomos Dafydd i ben ar 31 Hydref 2020. Yn dilyn ymarfer recriwtio, wedi'i hwyluso gan ymgynghorwyr recriwtio, cynhaliwyd proses rhestr fer gyda chyfweliadau i ddilyn yn ystod mis Hydref 2020. Nodwyd bod y panel cyfweld yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd ion y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, yr Is-ganghellor a'r Prif Swyddog Gweithredu/Ysgrifennydd y Brifysgol.

B. Yn dilyn y broses gyfweld gwahoddwyd y Cyngor i benodi'r unigolion canlynol yn aelodau annibynnol o'r Cyngor am gyfnod cychwynnol o 4 blynedd. Darparwyd disgrifiad byr o'r tri unigolyn i'r aelodau:

- Mr Atul Devani, Cadeirydd Anweithredol Maven Income a Growth VC3 PLC;

- Mr Eric Hepburn CBE, Cymrawd er Anrhydedd Prifysgol Bangor a Chyfarwyddwr Diogelwch y Cyngor y y

yn ystod yr ymarfer recriwtio, gwahoddwyd y Cyngor i benodi unigolyn ychwanegol gymryd lle Dr Jones maes o law fel aelod annibynnol o'r Cyngor. Darparwyd disgrifiad byr i'r aelodau:

- Yr Athro Jean White CBE, Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

E. Wedi ystyriaeth briodol, cymeradwyodd y Cyngor benodi'r Athro White yn aelod annibynnol, am gyfnod cychwynnol rhwng 1 Tachwedd 2021 a 31 Hydref 2024. Yn ogystal, cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad y dylai'r Athro White ymuno â chyfarfodydd y Cyngor ym mis Gorffennaf a Medi 2021 fel arsylwr, cyn ymuno fel aelod annibynnol llawn ym mis Tachwedd 2021.